Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

**Uned Cymorth Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd (UCCACD)**
**Education and Family Support Directorate – Directorate Support Unit (EDSU)**

Deialu uniongyrchol / Direct line: 01656 642617

Ein cyf / Our ref: EDSU/
Eich cyf / Your ref:

Dyddiad / Date: 16 Rhagfyr 2021

Annwyl Riant/Ofalwr

Hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am sut y bydd ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gweithredu yn dilyn gwyliau'r Nadolig.

Yn gynharach heddiw, cafodd pob ysgol yng Nghymru wybod y bydd y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg yn darparu dau ddiwrnod cynllunio i ysgolion ar ddechrau tymor newydd y gwanwyn. Bydd hyn yn rhoi amser i benaethiaid asesu capasiti staffio a rhoi'r mesurau angenrheidiol ar waith i gefnogi'r dysgwyr i ddychwelyd. Cynhelir y ddau ddiwrnod cynllunio ar ddydd Mawrth 4 Ionawr a dydd Mercher 5 Ionawr 2022.

Mae'n bwysig nodi na fydd darpariaeth ar y safle (h.y. yn yr ysgol) ar gyfer unrhyw ddisgybl ar 4 neu 5 Ionawr. Yn yr un modd, ni fydd ysgolion yn cynnig darpariaeth dysgu o bell yn ystod y ddau ddiwrnod hyn. Ar hyn o bryd, bydd yr holl ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr yn dychwelyd i'r ysgol ddydd Iau 6 Ionawr 2022. Fodd bynnag, gall y sefyllfa hon newid os bydd yr amgylchiadau (e.e. materion capasiti staffio) yn pennu hynny. Bydd ysgolion unigol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni/ofalwyr maes o law os bydd y trefniadau'n newid. Lle bo angen, bydd ysgolion uwchradd yn blaenoriaethu disgyblion mewn dosbarthiadau arholiadau.

Bwriedir ailddechrau clybiau brecwast, lle bo hynny'n berthnasol, ddydd Llun 10 Ionawr 2022. Fodd bynnag, cynghorir rhieni/gofalwyr y gallai hyn newid yn dibynnu ar lefelau staffio. Bydd rhieni/gofalwyr sydd â phlant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael taleb talu'n ddigidol yn ystod yr wythnos sy'n dechrau dydd Llun 3 Ionawr 2022.

Mae'r awdurdod lleol a'r ysgolion yn cydnabod bod hwn yn gyfnod anodd i bob dysgwr, yn enwedig y dysgwyr hynny sy'n paratoi ar gyfer arholiadau. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw newid i amserlen arholiadau Ionawr 2022. Bydd ysgolion yn parhau i roi cymorth i bob dysgwr er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd dysgu'n ddiogel a bod lles emosiynol dysgwyr yn cael ei gefnogi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei bod yn disgwyl i holl staff ysgol a dysgwyr oedran uwchradd ac uwch gynnal prawf teirgwaith yr wythnos (ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener) gan ddefnyddio dyfeisiau llif unffordd yn ystod yr wythnos cyn dychwelyd i'r ysgol ac yna parhau i brofi'n rheolaidd dair gwaith yr wythnos ar ôl dechrau'r tymor ym mis Ionawr.

Bydd gwisgo gorchuddion wyneb yn parhau ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd a'r holl staff ym mhob lleoliad ym mhob man cymunedol ac ystafell ddosbarth pan na ellir cadw pellter corfforol. Fodd bynnag, bydd rhai dysgwyr a staff sydd wedi'u heithrio rhag gwisgo gorchuddion wyneb.

Atgoffir rhieni/gofalwyr y cynghorir disgyblion i beidio â dod i'r ysgol os ydyn nhw, neu unrhyw un ar eu haelwyd, wedi cael prawf positif am COVID-19 neu'n arddangos unrhyw un o brif symptomau COVID-19.

I gloi, hoffwn ddiolch i chi i gyd, unwaith eto, am y gefnogaeth enfawr yr ydych chi wedi'i rhoi i ysgol eich plentyn yn ystod cyfnod mor heriol.

Gobeithio y byddwch i gyd yn mwynhau Nadolig heddychlon a blwyddyn newydd dda.

Lindsay



**Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)**
**Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr